WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Dyddiad: 29 Tachwedd 2016
Ein cyf: HVT/2642/IG/16008/caf
Tudalen: 1 o 1

Annwyl Simon

## AMCANGYFRIF 2017-18

Diolch yn fawr am adroddiad cadarnhaol eich Pwyllgor ar ein Hamcangyfrif ar gyfer 2017-18 a'r gyfres o adroddiadau statudol eraill.

Mae'n bleser gennym nodi bod y Pwyllgor yn fodlon ar ein Hamcangyfrif ac adroddiadau eraill a bod y Pwyllgor wedi croesawu ein natur agored yn ystod y broses graffu. Byddwn yn awr yn symud ymlaen at osod y Cynllun Ffioedd (cafodd drafft ei gynnwys yn yr Amcangyfrif) i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan y Pwyllgor.

Rydym yn derbyn yr argymhelliad a wnaed ynghylch buddsoddi mewn TG a byddwn yn rhoi'r manylion ychwanegol hynny yn ein Hadroddiadau Blynyddol yn y dyfodol. Rydym hefyd yn nodi y byddai'r Pwyllgor yn hoffi cael rhagor o wybodaeth yn y Flwyddyn Newydd ynghylch rhwymedigaethau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwn yn darparu hynny mewn cysylltiad â'ch Clerc.

Roeddem o'r farn bod y broses graffu yn adeiladol iawn a hoffem ddiolch i chi a'ch tîm clercio am y cynllunio a'r ymgysylltu effeithiol.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

**ISOBEL GARNER**
**CADEIRYDD, BWRDD SAC**